Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Dogfen Tariff Cyfanwerthu 2022/23

Ystyriodd y Bwrdd y tariffau cyfanwerthu ar gyfer 2022/23 yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021. Nododd y Bwrdd y gofynion gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi am y tariffau cyfanwerthu yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol fel y nodir uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y tariffau a geir yn Nogfen Tariff Cyfanwerthu Dŵr Cymru 2022/23 yn cydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau Codi Tâl Cyfanwerthu a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 117I Deddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, rydym o'r farn bod ein tariffau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried y rheolau codi tâl cyfanwerthu gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r tariffau ar gwsmeriaid sy'n byw mewn eiddo cymwys ac mae'n nodi y bydd taliadau i gwsmeriaid dibreswyl heb fesurydd yn cynyddu 6.3% ac yn cynyddu 6.3% i gwsmeriaid diwydiannol mawr, o ganlyniad i'r lefel uchel o chwyddiant yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Tai (CPIH) a gaiff ei ychwanegu at dariffau yn 2022/23. Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod strategaethau cyfathrebu ac ymdrin priodol ar waith ar gyfer y cwsmeriaid hyn.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am y gwahaniaeth rhwng y tariffau cyfanwerthu a'r tariffau cyfanwerthu dangosol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021. Mae'r cynnydd terfynol mewn tariffau yn uwch o ganlyniad i gynnydd yn lefel y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Tai (CPIH) o gymharu â'r hyn a dybiwyd yn y taliadau dangosol. Mae'r Bwrdd yn fodlon nad oes unrhyw gynnydd perthnasol yn deillio o'r tariffau terfynol heblaw am y rhai a achosir gan y cynnydd yn y ffigur chwyddiant.

Mae'r cwmni wedi gohebu â manwerthwyr sy'n gweithredu yn y rhanbarth ac wedi ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Tariffau Cyfanwerthu.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am roi cymeradwyaeth derfynol i Ddogfen Tariff Cyfanwerthu 2022/23 (yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol), yn sgil cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH) ar 15 Rhagfyr 2021, i'r Prif Weithredwr.

**Peter Perry**
**Prif Weithredwr**

Ar ran y Bwrdd
16 Rhagfyr 2021